# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## IS-DDEDDFAU AR GYFER CERBYDAU HACNI

Gwnaed o dan adran 68 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, ac adran 171 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875, gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** mewn perthynas â cherbydau hacni yn y dywydedig Fwrdeistref Sirol.

Dehongliad

1 Drwy gydol yr is-ddeddfau hyn mae "y Cyngor" yn golygu *Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.*

## Caiff y darpariaethau sy'n rheoleiddio'r modd y mae rhif pob cerbyd hacni yn cyfateb â rhif ei drwydded eu harddangos.

2. (a) Bydd perchennog cerbyd hacni yn peri bod rhif y drwydded a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â'r cerbyd yn cael ei baentio'n ddarllenadwy ar y tu allan a'r tu fewn i'r cerbyd, neu ar blatiau a gafodd eu gosod arno.

(b) Ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni yn:-

(i) Fwriadol nac yn esgeulus yn peri neu'n goddef bod unrhyw rif o'r fath yn cael ei guddio o'r cyhoedd tra bo'r cerbyd yn segur neu'n ymgymryd â chael ei logi; ac

(ii) Ni fydd yn peri nac yn caniatáu i'r cerbyd fod yn segur neu ymgymryd â chael ei logi gydag unrhyw farcio paent neu blât sydd wedi ei ddifwyno i'r fath fodd fel bod unrhyw ffigur neu ddeunydd penodol yn annarllenadwy.

## Darpariaethau sy'n rheoleiddio sut y caiff cerbydau hacni eu dodrefnu neu eu darparu

3. Bydd perchennog cerbyd hacni yn:-

(a) Darparu digon o fodd fel y gall unrhyw berson yn y cerbyd gyfathrebu â'r gyrrwr;
(b) peri bod y to neu'r gorchudd yn ddiddos ac yn dal dŵr;
(c) darparu unrhyw ffenestri angenrheidiol a moddau o'u hagor a chau – dim llai nac un ffenestr ar bob ochr;
(d) Peri bod y seddi yn cael eu clustogi neu eu gorchuddio'n gywir;
(e) Peri bod y llawr yn cael ei garpedu'n iawn, neu â mat neu orchudd priodol arall;
(f) Peri bod y ffitins a'r dodrefn yn gyffredinol yn cael eu cadw mewn cyflwr

glân, eu cynnal a chadw'n dda ac ym mhob ffordd yn deilwng o wasanaethu'r cyhoedd;

(g) Darparu modd o sicrhau'r bagiau os yw'r cerbyd wedi ei gynhyrchu yn y fath fodd ag i gario bagiau;

(h) Darparu diffoddydd tân effeithiol a fydd yn cael ei gario yn y fath safle fel ag y bydd ar gael i'w ddefnyddio;

(i) Darparu o leiaf dau ddrws i'w defnyddio ar gyfer personau a gaiff eu cludo yn y fath gerbyd a modd ar wahân i'r gyrrwr fynd i mewn ac allan o'r cerbyd.

4. Bydd perchennog cerbyd hacni yn peri bod unrhyw fesurydd tacsi a ddarperir gyda'r cerbyd yn cael ei wneuthur, ei osod a'i gynnal yn y fath fodd fel ag y bydd yn cydsynio â'r gofynion canlynol, sef a ganlyn:-

a) Caiff y mesurydd tacsi ei osod ag allwedd, baner neu ddyfais arall a fydd yn peri, o'i droi, bod mecanwaith y mesurydd tacsi yn dechrau gweithio a pheri i'r gair "HIRED" ymddangos ar wyneb y mesurydd tacsi.

b) Bydd allwedd, baner neu ddyfais arall o'r fath yn gall cael ei gloi yn y fath safle fel bod mecanwaith y mesurydd tacsi yn peidio â gweithredu ac fel na chaiff unrhyw bris ei gofnodi ar wyneb y mesurydd tacsi;

c) Pan fydd mecanwaith y mesurydd tacsi yn gweithredu, ar wyneb y mesurydd tacsi mewn ffigurau darllenadwy, clir, gwelir y pris nad yw'n fwy na chyfradd na'r pris y mae'r perchennog neu'r gyrrwr â'r hawl i ofyn amdano a'i gymryd am logi'r cerbyd yn ôl amser yn ogystal â phellter o ganlyniad i'r pris a osodwyd gan y Cyngor;

d) Caiff y gair "FARE" ei brintio ar wyneb y mesurydd tacsi mewn llythrennau plaen fel eu bod yn amlwg yn berthnasol i'r pris a gaiff ei gofnodi arno;

e) Caiff y mesurydd tacsi ei osod yn y fath le fel bod pob llythyren a ffigur ar ei wyneb i'w gweld yn glir ar bob achlysur i unrhyw berson sy'n cael ei gludo yn y cerbyd, ac i'r perwyl hwnnw, bydd y llythrennau a'r ffigurau'n gallu cael eu goleuo'n briodol yn ystod unrhyw gyfnod o logi; a

f) Bydd y mesurydd tacsi a'i holl ffitins yn cael eu gosod yn y fath fodd fel ei fod wedi ei selio, neu ei osod ag offer eraill fel na fydd yn ymarferol i unrhyw berson amharu â nhw oni bai eu bod yn cael eu torri, eu difrodi neu fod y selio neu'r offer arall yn cael eu dadleoli'n barhaol -

## Darpariaethau sy'n rheoleiddio ymddygiad perchnogion a gyrwyr cerbydau hacni sy'n ymgymryd â llogi yn eu hardal yn eu hamryfal gyflogaethau, a phennu a fydd gyrwyr o'r fath yn gwisgo unrhyw fathodynnau a pha fathodynnau

5 Bydd gyrrwr cerbyd hacni a ddarperir â mesurydd tacsi:-

a) Wrth fod yn segur neu ymgymryd â llogi, yn cadw'r allwedd, baner neu unrhyw ddyfais arall a osodwyd o ganlyniad i'r is-ddeddf i'r tu hwnnw, wedi eu cloi yn y safle ble na chaiff unrhyw bris ei gofnodi ar wyneb y mesurydd tacsi;

b) Cyn dechrau'r daith y mae'r pris yn talu am bellter ac amser, dod â mecanwaith y mesurydd tacsi i'w weithredu drwy symud y ddywededig

allwedd, baner neu ddyfais arall fel bod y gair "HIRED" yn ddarllenadwy ar wyneb y mesurydd tacsi a chadw mecanwaith y mesurydd tacsi'n gweithredu nes bod y llogi wedi dod i ben. Bydd mesuryddion presennol nad ydynt yn arddangos y gair HIRED ar wyneb y mesurydd cael eu heithrio hyd nes y fath amser ag y caiff mesurydd neu'r cerbyd eu hadnewyddu, pa bynnag un sy'n digwydd yn gyntaf; a

c) Peri bod deial y mesurydd tacsi yn cael ei gadw wedi ei oleuo'n iawn drwy gydol unrhyw ran o'r cyfnod llogi sydd rhwng hanner awr ar ôl machlud a hanner awr cyn gwawrio, a hefyd ar unrhyw amser arall yn ôl cais y gyrrwr.

6 Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd hacni yn amharu ar nac yn caniatáu bod unrhyw berson yn amharu ar unrhyw fesurydd tacsi y mae'r cerbyd yn cael ei ddarparu ag ef, gyda'r ffitins sy'n gysylltiedig ag ef na'r seliau sydd wedi eu hatodi ato.

7. Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni ar bob adeg yn defnyddio arwydd y to fel a gaiff ei gyflwyno gan y Cyngor yn y modd cywir. Caiff arwydd y to ei gynnal a'i gadw i weithio'n dda a'i weithredu fel ei fod yn dynodi'n glir ac yn gyfleus i bersonau y tu allan i'r cerbyd a yw'r cerbyd ar log.

8. Bydd gyrrwr cerbyd hacni, wrth iddo ymgymryd â llogi mewn unrhyw stryd a heb gael ei logi eto:-

a) Yn parhau i yrru ar gyflymder rhesymol tuag at un o'r stondinau a benodwyd gan y Cyngor;
b) Os bydd arosfan, ar yr adeg y bydd yn cyrraedd, yn llawn o ran y nifer llawn o gerbydau yr awdurdodir i fod yno, yn parhau i yrru at arosfan arall;
c) Ar ôl cyrraedd arosfan nad yw eisoes yn llawn o ran nifer llawn y cerbydau yr awdurdodir i fod yno, stopio'r cerbyd ar unwaith y tu ôl i'r cerbyd neu'r cerbydau wrth yr arosfan fel ei fod yn wynebu'r un cyfeiriad; ac
d) O bryd i'w gilydd, pan fydd unrhyw gerbyd arall yn union o'i flaen yn cael ei yrru i ffwrdd neu ei symud ymlaen, beri bod ei gerbyd yn cael ei symud ymlaen er mwyn llenwi'r lle yr oedd y cerbyd sydd wedi gyrru i ffwrdd neu symud ymlaen, ynddo yn flaenorol.

9. Ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni, pan fydd yn segur neu'n ymgymryd â llogi yn galw allan neu fel arall, daer-erfyn ar unrhyw berson i logi cerbyd o'r fath, ac ni fydd yn defnyddio gwasanaethau unrhyw berson arall i'r perwyl hwn.

10. Bydd gyrrwr cerbyd hacni yn ymddwyn mewn modd cwrtais a threfnus a bydd yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch y personau sy'n cael eu cludo yn y cerbyd neu'n mynd i mewn neu allan o'r cerbyd.

11. Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni sydd wedi cytuno neu sydd wedi cael ei logi i weinyddu'r cerbyd ar adeg a lle penodol, yn mynychu'n brydlon, oni bai ei fod wedi ei oedi neu ei atal drwy ryw achos digonol, gyda cherbyd o'r fath ar yr amser penodol ac yn y lle a benodwyd.

12. Ni fydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni yn cludo nac yn caniatáu cludo mewn cerbyd o'r fath, unrhyw nifer yn fwy o bersonau na'r nifer o bersonau a bennir ar y plât sydd wedi ei atodi at gorff allanol y cerbyd.

13 Bydd y bathodyn a ddarperir gan y Cyngor a'i ddanfon at yrrwr cerbyd hacni, pan fydd y cerbyd yn segur neu'n ymgymryd â llogi, ac wrth logi, yn cael ei wisgo gan y gyrrwr yn y fath safle a'r fath fodd fel ei fod yn amlwg ei weld.

14 Bydd yr ail fathodyn a ddarperir gan y Cyngor a'i ddanfon at yrrwr cerbyd hacni, pan fydd y cerbyd yn segur neu'n ymgymryd â llogi, ac wrth logi, yn cael ei arddangos ar ffasgai neu sgrin wynt y cerbyd mewn lle amlwg fel ei fod yn amlwg ei weld gan yr holl deithwyr.

15. Ymhen 7 niwrnod rhaid i yrrwr cerbyd hacni:

a) A gafodd ei euogfarnu o unrhyw drosedd, neu
b) A gafodd unrhyw hysbysiad cosb benodedig wedi ei gyflwyno iddo / iddi am unrhyw drosedd, neu
c) Sydd wedi derbyn unrhyw rybudd am unrhyw drosedd

adrodd yn ôl am y fath beth yn ysgrifenedig i'r Cyngor.

16 Ni fydd gyrrwr cerbyd hacni, wrth fod yn segur neu wrth ymgymryd â llogi, neu ar ôl cael ei logi yn:

a) ysmygu yn y cerbyd ar unrhyw adeg; nac
b) yn yfed na bwyta yn y cerbyd wrth gludo teithwyr.

17. Bydd gyrrwr y cerbyd hacni, ar ôl cais gan unrhyw berson sy'n llogi neu'n ceisio llogi'r cerbyd:-

a) yn cludo dogn rhesymol o fagiau;
b) rhoi cymorth rhesymol wrth lwytho a dadlwytho; a
c) rhoi cymorth rhesymol wrth eu symud i fynedfa adeilad neu i ffwrdd o fynedfa adeilad, gorsaf neu fan y gall gasglu neu ollwng person o'r fath.

## Darpariaethau wrth osod cyfraddau neu brisiau sydd i'w talu am gerbydau hacni oddi fewn i'r ardal a sicrhau fod prisiau o'r fath yn cael eu cyhoeddi yn ôl eu haeddiant.

18. Bydd hawl gan berchennog neu yrrwr cerbyd hacni i orchymyn a chymryd arian am logi'r cerbyd yn ôl y gyfradd neu'r pris a ragnodwyd gan y Cyngor, sef y gyfradd neu'r pris sy'n cael ei gyfrifo drwy gyfuniad o bellter ac amser oni bai bod y llogwr yn dymuno ar ddechrau'r llogi ei ddymuniad i gyflogi yn ôl amser.

Ar yr amod, bob amser, pan fo cerbyd hacni wedi ei ddodrefnu â mesurydd tacsi y bydd yn cael ei logi drwy bellter ac amser, ni fydd hawl gan berchennog neu yrrwr y cerbyd hacni hwnnw, i gymryd pris sy'n fwy na'r hwnnw a gofnodwyd ar y mesurydd tacsi, ac eithrio am unrhyw daliadau ychwanegol a

awdurdodwyd gan y Cyngor, a allai beidio â bod yn bosibl eu cofnodi ar wyneb y mesurydd tacsi.

19. (a) Bydd perchennog cerbyd hacni yn peri bod datganiad o'r prisiau a osodwyd drwy benderfyniad y Cyngor yn cael eu harddangos y tu fewn i'r cerbyd, mewn llythrennau a ffigurau sy'n amlwg eu hadnabod.

(b) Ni fydd perchennog na gyrrwr cerbyd hacni sy'n cario datganiad o'r prisiau yn unol â'r is-ddeddf hon yn peri nac yn goddef drwy fwriad nac esgeulustod fod llythrennau neu ffigurau yn y datganiadau yn cael eu cuddio neu ddatgan i fod yn annarllenadwy ar unrhyw adeg tra bo'r cerbyd yn ymgymryd â llogi neu wrthi'n cael ei logi.

## Darpariaethau sy'n sicrhau gwarchodaeth ddiogel ac ail-drosgludiad o unrhyw eiddo a adawyd drwy ddamwain mewn cerbydau hacni, a gosod y prisiau sydd i'w gwneud mewn perthynas â hynny

20. Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni yn syth ar ôl i logi ddod i ben neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny, yn chwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael ei adael ynddo ar ddamwain.

.21 Bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni, os bydd unrhyw eiddo sydd wedi ei adael gan unrhyw berson yn ddamweiniol yn y cerbyd hacni, a allai fod wedi cael ei gludo yn y cerbyd, yn cael ei ddarganfod ganddo neu ei roi iddo:-

a) yn ei gludo cyn gynted â phosibl ac ym mhob achos ymhen 48 awr, os nad yn gynt, wedi ei hawlio gan, neu ar ran y perchennog, i swyddfa'r Cyngor a'i adael dan warchodaeth y swyddog sydd mewn gofal o'r swyddfa ar ôl iddo roi derbynneb amdano; a
b) bod â'r hawl i dderbyn oddi wrth unrhyw berson y bydd yr eiddo yn cael ei ail-drosgludo iddo, swm sy'n gyfartal â phum ceiniog yn y bunt o amcangyfrif ei werth (neu'r pris am y pellter o'r man y cafodd ei ddarganfod i swyddfa'r Cyngor, pa bynnag un fyddo fwyaf) ond ddim mwy na phum punt.

## Cosbau

22. Bydd pob person a fydd yn troseddu yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn atebol yn dilyn euogfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn fwy na Lefel 2 ar y Raddfa Safonol ac yn achos trosedd parhaus, i ddirwy bellach na fydd yn fwy na dwy bunt am bob dydd y mae'r drosedd yn parhau ar ôl euogfarn am hynny.

## Diddymu Is-ddeddfau

23. Caiff yr holl is-ddeddfau sy’n berthnasol i gerbydau hacni a gafodd eu gwneud gan gyn Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful gynt neu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o bryd i’w gilydd eu diddymu gyda hyn.

:

Adran Gyfreithiol
TŶ Keir Hardie
Llys Glan yr Afon
Avenue De Clichy
Merthyr Tudful

Caiff yr is-ddeddfau blaenorol eu cadarnhau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a byddant yn dod i rym ar 10 Mai 2006.